

## Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

---

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:  
Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd **Graeme Francis** – Clerc y Pwyllgor  
Dyddiad: Dydd Mawrth, 17 Medi 2019 **Ross Davies** – Dipwrwy Glerc  
Amser: 09.00 0300 200 6565  
[SeneddDeisebau@cynulliad.cymru](mailto:SeneddDeisebau@cynulliad.cymru)

---

**1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant**  
(Tudalennau 1 – 41)

### **2 Deisebau newydd**

2.1 P-05-893 Achub Ein Parciau yng Nghymru  
(Tudalennau 42 – 50)

2.2 P-05-894 Ardrethi busnes tecach i fusnesau Cymru  
(Tudalennau 51 – 59)

2.3 P-05-896 Atal Ward 35 yn Ysbyty'r Tywysog Siarl rhag Cau  
(Tudalennau 60 – 64)

2.4 P-05-897 Rhwystrwch Ddatblygwyr rhag gosod rhwydi yn y gwrychoedd a'r  
coed  
(Tudalennau 65 – 74)

### **3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol**

#### **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

3.1 P-05-771 Ailystyried y penderfyniad i roi'r gorau i Grant Byw'n Annibynnol  
Cymru a'r angen i gefnogi pobl anabl i fyw'n annibynnol  
(Tudalennau 75 – 80)

3.2 PP-05-812 Dylid gweithredu canllawiau NICE ar gyfer trin Anhwylder  
Personoliaeth Ffiniol  
(Tudalennau 81 – 87)



- 3.3 P-05-817 Aelodau prosthetig arbenigol i blant  
(Tudalennau 88 – 92)
- 3.4 P-05-826 Mae sir Benfro yn dweud NA!! i gau adran damweiniau ac achosion brys Llwynhelyg!  
(Tudalennau 93 – 106)
- 3.5 P-05-842 Rhowch lais i bobl ifanc yn y broses o gomisiynu gwasanaethau lleol yng Nghymru  
(Tudalennau 107 – 112)
- 3.6 P-05-849 Dylai pob dyn yng Nghymru gael mynediad drwy'r GIG at y profion diagnostig gorau posibl ar gyfer canser y prostad\_  
(Tudalennau 113 – 119)
- 3.7 P-05-859 Dylid Darparu Tai Plant yng Nghymru i Blant sy'n Dioddef Camdriniaeth Rywiol  
(Tudalennau 120 – 123)

## **Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**

### **Bydd y ddwy eitem a ganlyn yn cael eu trafod ar y cyd**

- 3.8 P-05-809 Is-ddeddfau Pysgota arfaethedig Newydd a methiannau Cyfoeth Naturiol Cymru  
(Tudalennau 124 – 126)
- 3.9 P-05-810 Rhowch Gyfle i Glybiau Pysgota Cymru ac Eog a Brithyll y Môr  
(Tudalennau 127 – 144)
- 3.10 P-05-813 Gwahardd y DEFNYDD O FAGLAU LARSEN (maglau dal sawl math o frân)  
(Tudalennau 145 – 150)
- 3.11 P-05-856 Rhaid gwahardd gwerthu cŵn bach gan siopau anifeiliaid anwes a phob gwerthwr trydydd parti masnachol yng Nghymru (Cyfraith Lucy)  
(Tudalennau 151 – 156)

3.12 P-05-874 Gwahardd gwerthu nwyddau sydd wedi eu pecynnu mewn plastig  
untro ar wasanaethau Trafnidiaeth Cymru

(Tudalennau 157 – 161)

## **Tai a Llywodraeth Leol**

3.13 P-05-858 Taenellwyr Dŵr i arbed bywydau nid i wneud arian!

(Tudalennau 162 – 165)

## **Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**

3.14 P-05-867 Gwneud Murlun 'Cofiwch Dryweryn' yn dirnod Cymreig dynodedig

(Tudalennau 166 – 169)

## **Addysg**

3.15 P-05-884 Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Cymru) 2018 i  
gynnwys sefydliadau'r DU sydd â gweithrediadau dramor

(Tudalennau 170 – 175)

3.16 P-05-888 Gwneud TGAU Iaith Gymraeg yn orfodol ym mhob ysgol yng  
Nghymru

(Tudalennau 176 – 179)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 2.1

## P-05-893 Achub Ein Parciau yng Nghymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Crispian Huggill, ar ôl casglu cyfanswm o 244 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Mae parciau a mannau chwarae yn mynd yn adfail, neu maent dan fygythiad o gael gwaith adeiladu arnynt neu gael eu gwerthu i ddatblygwyr.

Mae hyn er gwaethaf y manteision iechyd a chymdeithasol hanfodol a gynigir gan y mannau gwyrdd hyn, sydd mor agos at ein calonnau.

Diben y ddeiseb hon yw ysgogi cefnogaeth i achub ein parciau, ein meysydd chwarae a'n mannau agored rhag cael eu colli am byth, i ddiwallu anghenion cenedlaethau heddiw a chenedlaethau'r dyfodol ac ategu'r rhwymedigaethau sydd ar gynghorau yng Nghymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Deddf yr Amgylchedd 2016.

Rydym eisiau:

- 1) Gofyniad statudol i gynghorau neilltuo cyllid o £30 yr aelwyd y flwyddyn ar gyfer parciau.
- 2) Gweld dyletswydd gyfreithiol i bob man gwyrdd gael ei reoli i safon dda.
- 3) Rheolau newydd yn gwahardd gwaith datblygu ar barcdiroedd, gwerthu parcdiroedd neu ddefnyddio parcdiroedd yn amhriodol.
- 4) Cronfa newydd gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cymorth brys i'r parciau sy'n wynebu'r perygl mwyaf a sicrhau dyfodol mannau gwyrdd agored Cymru yn yr hirdymor.
- 5) Gofyniad cyfreithiol i bob cyngor weithredu Strategaeth Mannau Agored yn unol â Safonau Meysydd Chwarae Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, a Deddf yr Amgylchedd 2016, ac iddynt weithio gyda Meysydd Chwarae Cymru i ddiogelu a gwella'r holl fannau gwyrdd agored cyhoeddus yng Nghymru.

**Gwybodaeth ychwanegol:**

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gŵyr
- Gorllewin De Cymru

# P-05-893 Achub ein Parciau yng Nghymru:

Y Pwyllgor Deisebau | 17 Medi 2019  
Petitions Committee | 17 September 2019

Cyfeirnod: RS19/10336

Rhif y Ddeiseb: P-05-893

Teitl y ddeiseb: Achub ein Parciau yng Nghymru



**Testun y ddeiseb:** Mae parciau a mannau chwarae yn mynd yn adfail, neu maent dan fygythiad o gael gwaith adeiladu arnynt neu gael eu gwerthu i ddatblygwyr.

Mae hyn er gwaethaf y manteision iechyd a chymdeithasol hanfodol a gynigir gan y mannau gwyrdd hyn, sydd mor agos at ein calonnau.

Diben y ddeiseb hon yw ysgogi cefnogaeth i achub ein parciau, ein meysydd chwarae a'n mannau agored rhag cael eu colli am byth, i ddiwallu anghenion cenedlaethau heddiw a chenedlaethau'r dyfodol ac ategu'r rhwymedigaethau sydd ar gynghorau yng Nghymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Deddf yr Amgylchedd 2016.

Rydym eisiau:

1) Gofyniad statudol i gynghorau neilltuo cyllid o £30 yr aelwyd y flwyddyn ar gyfer parciau.

2) Gweld dyletswydd gyfreithiol i bob man gwyrdd gael ei reoli i safon dda.

3) Rheolau newydd yn gwahardd gwaith datblygu ar barcdiroedd, gwerthu parcdiroedd neu ddefnyddio parcdiroedd yn amhriodol.

4) Cronfa newydd gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cymorth brys i'r parciau sy'n wynebu'r perygl mwyaf a sicrhau dyfodol mannau gwyrdd agored Cymru yn yr hirdymor.

5) Gofyniad cyfreithiol i bob cyngor weithredu Strategaeth Mannau Agored yn unol â Safonau Meysydd Chwarae Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, a Deddf yr Amgylchedd 2016, ac iddynt weithio gyda Meysydd Chwarae Cymru i ddiogelu a gwella'r holl fannau gwyrdd agored cyhoeddus yng Nghymru.

## 1. Y cefndir

### Cyllid Llywodraeth Leol

Mae cyfran sylweddol o gyllideb awdurdodau lleol yn dod yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ar ffurf cyllid refeniw. Mae awdurdodau lleol hefyd yn cael rhywfaint o gyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â rhywfaint o gyllid grant



Title:

---

penodol. Derbyniadau treth gyngor, a'r incwm y maent yn ei gynhyrchu ei hun, yw gweddill cyllideb yr awdurdodau.

*Y Grant Cymorth Refeniw* yw'r cyfranr helaeth o'r cyllid refeniw y bydd Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu. Grant heb ei neilltuo yw hwn ac nid oes gofynion penodol ar awdurdod o ran y modd y bydd yn ei wario. Mae Gweinidogion Cymru wedi dweud yn gyson mai'r awdurdodau lleol eu hunain ddylai benderfynu sut i ddefnyddio'u hadnoddau, a hynny ar sail blaenoriaethau lleol.

Y Cabinet sy'n penderfynu ar faterion yn ymwneud â chyllideb awdurdodau lleol, a bydd holl aelodau'r cyngor yn pleidleisio ar y rhain. Bydd cyllid ar gyfer parciau a mannau agored yn aml yn cael ei gynnwys fel rhan o feysydd polisi ehangach, fel 'dysgu cymunedol a hamdden', ac nid yw bob amser yn amlwg. Ar hyn o bryd, nid oes dim gofyniad statudol i awdurdodau lleol glustnodi unrhyw gyllid a gânt gan Lywodraeth Cymru ar gyfer parciau a mannau agored.

Mae pob awdurdod lleol unigol yn gyfrifol am gynnal a chadw llawer o'r parciau a'r mannau agored yn ei ardal. Fodd bynnag, gall cynghorau tref neu gymuned, neu ryw gorff gwirfoddol neu breifat, gynnal a chadw rhai parciau a mannau agored.

## Polisi cynllunio

Mae polisi cynllunio cenedlaethol Llywodraeth Cymru wedi'i osod allan ym [Mholisi Cynllunio Cymru \(Rhifyn 10\) \(PPW\)](#). Mae adran 4.5 o'r ddogfen hon yn trafod mannau hamdden. Mewn perthynas â mannau gwyrdd agored a chaeau chwarae, mae'n nodi:

- Dylai'r awdurdodau cynllunio ddarparu fframwaith ar gyfer cyfleusterau chwaraeon a hamdden o ansawdd da sydd wedi'u lleoli'n dda, a datblygu polisiau clir ar gyfer darparu, diogelu a gwella cyfleusterau chwaraeon a hamdden.
- Dylai'r polisiau hyn bennu safonau ar gyfer y ddarpariaeth, fel bod modd nodi ac unioni diffygion lleol drwy'r broses gynllunio, a llunio polisiau i osgoi neu ddatrys gwrthdaro rhwng gweithgareddau gwahanol facilities.
- Dylai mannau gwyrdd agored ffurfiol ac anffurfiol gael eu diogelu rhag cael eu datblygu. Mae hynny'n arbennig o berthnasol mewn ardaloedd trefol, lle mae mannau o'r fath yn cyflawni sawl diben;

- Dylid diogelu pob maes chwarae rhag cael ei ddatblygu, boed yn eiddo i gorff cyhoeddus, preifat neu wirfoddol ac eithrio:
  - lle y gellir cadw a gwella cyfleusterau orau drwy ailddatblygu rhan fach o'r safle;
  - lle y darperir darpariaeth arall yn yr ardal o'r un budd i'r gymuned, gan osgoi colli'r ddarpariaeth dros dro; neu
  - lle y mae gormod o ddarpariaeth o'r fath yn yr ardal..
- Dylai awdurdodau cynllunio ddiogelu meysydd chwarae a mannau agored sy'n werthfawr i gymunedau lleol o ran amwynder neu hamdden, rhag cael eu datblygu; a
- Dylai awdurdodau cynllunio annog defnydd amlbwrpas o fannau agored a chyfleusterau, pan fo hynny'n briodol, er mwyn eu defnyddio'n fwy effeithiol.

Cyhoeddwyd y fersiwn ddiweddaraf o Bolisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 10) fis Rhagfyr 2018. Mae strwythur y ddogfen hon yn wahanol iawn i'r fersiynau blaenorol, a hynny er mwyn ystyried *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*.

Mae Polisi Cynllunio Cymru newydd hefyd yn cyflwyno'r cysyniad o 'Creu Lle' i helpu i 'gyflawni dyheadau' Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn disgrifio'r broses o greu lle (ar dudalen 16) fel:

... ffordd holistig o fynd ati i gynllunio a dylunio datblygiadau a lleoedd yw "creu lle", sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau positif. Mae'n tynnu ar botensial ardal i greu datblygiadau a mannau cyhoeddus o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl yn eu hystyr ehangaf.

Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi [cyfeirio at y Polisi diwygiedig fel esiampl](#) o'r modd y dylai polisi cyhoeddus adlewyrchu'r Ddeddf.

Mae cyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (TAN) yn ategu Polisi Cynllunio Cymru ac mae'r rhain yn cynnig canllawiau ychwanegol ar faterion cynllunio penodol.

Ym mharagraff 2.2 yn [TAN 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored](#), nodir mai'r ffordd orau i awdurdodau cynllunio gyflawni'r amcanion a nodir ym Mholisi Cyhoeddus Cymru yw drwy gynnal asesiadau lleol o anghenion a chynnal archwiliadau o'r ddarpariaeth bresennol, a hynny ar ffurf Asesiad o Fannau Agored.

Title:

---

Dylid defnyddio'r Asesiad o Fannau Agored i baratoi ac adolygu Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yr awdurdod.

Mae paragraff 2.4 yn mynd rhagddo i ddweud y dylai'r Asesiadau o Fannau Agored a'r polisiau CDLI fod yn sail i Strategaeth Mannau Agored corfforaethol ehangach, ac y dylid paratoi hyn ar y cyd ag adrannau eraill o'r awdurdod lleol a rhanddeiliaid allweddol.

### **Deddfwriaeth yn ymwneud â gwaredu caeau chwarae**

Mae *Rheoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2015*, a wnaed o dan y *Mesur (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2010*, yn darparu ar gyfer cynnwys cymunedau mewn penderfyniadau awdurdodau lleol ynghylch cynigion i waredu tir sy'n cynnwys cae chwarae, neu dir sy'n rhan o gae chwarae.

Prif ddiben y ddeddfwriaeth yw:

- Ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Lleol gyhoeddi gwybodaeth am effaith cynnig i gael gwared ar gae chwarae ar iechyd a lles y gymuned, drwy gyfeirio at nifer o strategaethau, cynlluniau ac asesiadau allweddol ar gyfer yr ardal lle mae'r cae chwarae wedi'i leoli; a
- Chryfhau'r trefniadau ar gyfer ymgynghori â'r gymuned, defnyddwyr y cae chwarae a chyrrff cenedlaethol perthnasol cyn i Awdurdod Lleol ddod i benderfyniad terfynol i fwrw ymlaen â chynnig i waredu.

Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yn y [canllawiau statudol ar y rheoliadau](#).

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.





Eich cyf/Your ref: P-05-893  
Ein cyf/Our ref JJ/06243/19

Janet Finch-Saunders AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

[SeneddDeisebau@Cynulliad.Cymru](mailto:SeneddDeisebau@Cynulliad.Cymru)

13 Awst 2019

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Gorffennaf ynghylch Deiseb P-05-893 - Achub Ein Parciau yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y buddion niferus y gall mannau gwyrdd ac agored o ansawdd da eu cynnig. Mae mannau agored yn ganolbwynt ar gyfer chwaraeon a hamdden yn ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi. Maent yn lleoedd cynhwysol eu natur, gan ddarparu mynediad i bobl o bob oed a chefnidir i amgylcheddau gwyrdd, iach. Rydym yn cydnabod yn ein Polisi Adnoddau Naturiol y cyfraniad sylweddol y mae mannau agored yn ei wneud i fioamrywiaeth ac ecoleg ledled y wlad ac rydym yn tynnu sylw at bwysigrwydd cael mannau gwyrdd hygyrch o ansawdd da yn ein cymunedau.

### **Cynllunio a mannau agored**

Mae'r system gynllunio yn chwarae rhan bwysig a rhagweithiol wrth hyrwyddo gwerth mannau agored a sicrhau eu bod yn lleoedd hygyrch a deniadol. Mae polisi cynllunio cenedlaethol, a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (Gol. 10, 2019), yn ymgorffori nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y system gynllunio. Mae hyn yn cynnwys ein hagwedd tuag at fannau agored, lle mae polisi cynllunio yn darparu cefnogaeth gref ar gyfer creu mannau agored newydd a chynnal y ddarpariaeth bresennol.

Mae Polisi Cynllunio Cymru, wedi'i ategu gan ganllawiau Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 16: *chwaraeon, hamdden a mannau agored* (2009), yn ceisio sicrhau bod ddarpariaeth ddigonol o barciau a chaeau chwarae ledled Cymru. Mae awdurdodau cynllunio lleol yn cynnal Aseidiadau Mannau Agored, sy'n edrych ar ansawdd a maint y mannau agored yn eu hardal, i lywio polisïau a chynigion yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLI). Yn nodweddiadol, bydd CDLI yn nodi mannau agored presennol ac yn amlinellu gofynion ar gyfer darparu mannau agored newydd fel rhan o ddatblygiadau tai neu ddefnydd cymysg.

Mae gan y system gynllunio rôl allweddol hefyd wrth amddiffyn mannau agored presennol rhag datblygiad amhriodol ac rhag cael eu colli. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi "dylai awdurdodau cynllunio amddiffyn caeau chwarae a mannau agored sydd â gwerth amwynder neu hamdden sylweddol i gymunedau lleol rhag datblygu". Mae Chwaraeon

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cymru yn ymgynghorydd statudol ar geisiadau cynllunio sy'n effeithio ar gaeau chwarae, gan ddarparu cyngor gwerthfawr i awdurdodau cynllunio lleol.

Cefnogir amcanion y system cynllunio gan Cadw, sy'n diogelu gerddi, parciau a mannau gwyrdd eraill o ddiddordeb hanesyddol drwy'r broses gofrestru. Maent yn sicrhau bod pob safle ar y gofrestr o barciau a gerddi yng Nghymru yn cael eu hamddiffyn drwy'r system gynllunio. Nid yw'r gofrestr yn rhestr gaeedig a gellir ychwanegu safleoedd newydd sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cofrestru gan roi amddiffyniad pellach rhag datblygu.

### **Cyllid**

Mae'r mwyafrif helaeth o arian Llywodraeth Cymru ar gyfer parciau a mannau agored yn cael ei ddarparu trwy'r setliad llywodraeth leol heb ei ddynodi. Cyflwynir y setliad ar y sail mai awdurdodau lleol unigol sydd yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau gwariant yn eu hardaloedd. Mae'r system ariannu sydd gennym ar waith yn rhoi hyblygrwydd i awdurdodau lleol wneud y penderfyniadau hynny.

### **Cynnal mannau gwyrdd ac agored i safonau uchel**

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd mannau gwyrdd lleol hygyrch o ansawdd da ac felly rydym yn ariannu'r Wobr Baner Werdd yng Nghymru, sef y meincnod ar gyfer parciau a mannau gwyrdd ledled y DU. Mae Gwobr y Faner Werdd yn helpu i wella ystod eang o fannau agored, trwy annog buddsoddiad a balchder yn ein mannau agored, gan gynnwys llawer mewn ardaloedd trefol. Ar hyn o bryd mae 201 o safleoedd wedi'u dyfarnu ledled Cymru, gan gynnwys 112 o Wobrau Cymunedol.

### **Gwaredu mannau gwyrdd ac agored**

Mewn rhai amgylchiadau gall fod yn briodol cael gwared ar fannau agored neu eu hailddatblygu at ddefnydd arall. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi amgylchiadau lle gallai hyn fod yn briodol a gofynnir am farn Chwaraeon Cymru yn y sefyllfaoedd hyn. Mae amddiffyniad pellach rhag colli lleoedd chwarae yn amhriodol trwy ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu prosesau i'w dilyn gan awdurdodau lleol. Mae'r [rheoliadau hyn](#) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol hysbysebu eu bwriad ac ystyried unrhyw sylwadau y mae'n eu derbyn cyn y gallant gael gwared ar gaeau chwarae.

Yn gywir,



**Julie James AC/AM**

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol  
Minister for Housing and Local Government

### **P-05-894 Ardrethi busnes tecach i fusnesau Cymru**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Your Pontypridd Business Improvement District, ar ôl casglu cyfanswm o 80 lofnodion.

#### **Geiriad y ddeiseb:**

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gydnabod natur newidiol y sector manwerthu yng Nghymru dros y degawd diwethaf ac ystyried trafod ffyrdd o gyflwyno ardrethi busnes tecach fel rhan o system trethi Gymreig fwy blaengar i fusnesau yng nghanol ein trefi, mewn parciau manwerthu ac ar-lein i gynrychioli'r newidiadau hyn yn llawn.

Mae trefi a dinasoedd llewyrchus a chynaliadwy yn bwysig i bawb sy'n byw ac yn gweithio ynddynt ac mae Llywodraeth yr Alban wedi cydnabod hyn drwy ystyried codi trethi i barciau manwerthu ac mae Plaid Lafur y DU am brisiadau ardrethi busnes blynyddol, gan gydnabod yn rhannol yr angen i ystyried rhannu'r baich treth yn fwy cyfartal.

Dyma gyfle i Lywodraeth Cymru arwain ardrethi a threthi busnes tecach ac rydym ni, yn Ardal Gwella Busnes (BID) Eich Pontypridd, yn eich annog i achub ar y cyfle i ddangos i'n busnes lleol eich bod yn deall ei anghenion nawr ac yn y dyfodol.

#### **Gwybodaeth ychwanegol:**

#### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Pontypridd
- Canol De Cymru

# Deiseb: Ardrethi busnes tecach i fusnesau Cymru

Y Pwyllgor Deisebau | 17 Medi 2019  
Petitions Committee | 17 September 2019

## Papur briffio gan Ymchwil y Senedd:

Rhif y ddeiseb: P-05-894

Teitl y ddeiseb: Ardrethi busnes tecach i fusnesau Cymru

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gydnabod natur newidiol y sector manwerthu yng Nghymru dros y degawd diwethaf ac ystyried trafod ffyrdd o gyflwyno ardrethi busnes tecach fel rhan o system trethi Gymreig fwy blaengar i fusnesau yng nghanol ein trefi, mewn parciau manwerthu ac ar-lein i gynrychioli'r newidiadau hyn yn llawn.

Mae trefi a dinasoedd llewyrchus a chynaliadwy yn bwysig i bawb sy'n byw ac yn gweithio ynddynt ac mae Llywodraeth yr Alban wedi cydnabod hyn drwy ystyried codi trethi i barciau manwerthu ac mae Plaid Lafur y DU am brisiadau ardrethi busnes blynyddol, gan gydnabod yn rhannol yr angen i ystyried rhannu'r baich treth yn fwy cyfartal.

Dyma gyfle i Lywodraeth Cymru arwain ardrethi a threthi busnes tecach ac rydym ni, yn Ardal Gwella Busnes (BID) Eich Pontypridd, yn eich annog i achub ar y cyfle i ddangos i'n busnes lleol eich bod yn deall ei anghenion nawr ac yn y dyfodol.

## Y cefndir

Mae [ardrethi busnes](#) (a elwir hefyd yn ardrethi annomestig) wedi'u datganoli'n llwyr i Gymru ers mis Ebrill 2015. Mae ardrethi busnes yn dreth eiddo a delir ar eiddo annomestig a dyma'r modd y mae busnesau a defnyddwyr eraill eiddo annomestig yn cyfrannu tuag at gost gwasanaethau awdurdodau lleol.



Mae Llywodraeth Cymru yn pennu'r lluosydd ardrethi busnes bob blwyddyn ariannol, ac yn pennu polisi ardrethi busnes cenedlaethol, gan gynnwys pennu rhyddhad o ran ardrethi. Gall awdurdodau lleol hefyd ddyfarnu rhyddhadau dewisol ar gyfer busnes o fewn eu hawdurdod. Yn gyffredinol, mae ailbrisiadau ardrethi busnes wedi digwydd bob pum mlynedd. Daeth yr ailbrisiad diweddaraf i rym ym mis Ebrill 2017, a bwriedir i'r nesaf gael ei gynnal yn 2021 (wedi'i ddwyn ymlaen o 2022).

## Y camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

### Rhyddhad ardrethi busnes

Dywed y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn ei llythyr ynghylch y ddeiseb hon fod Llywodraeth Cymru yn darparu "dros £210 miliwn" o gymorth rhyddhad ardrethi yn 2019–20. Aiff y Gweinidog ymlaen i nodi, "bydd mwy na thri chwarter y trethdalwyr yng Nghymru yn elwa o'r rhyddhadau hyn, gyda hanner yn talu dim byd o gwbl".

Mae [Rhyddhadau sydd ar gael i fusnesau](#) sy'n bodloni meini prawf penodol ac sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn cynnwys:

- Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach (SBRR)
- Rhyddhad Trosiannol
- Rhyddhad Cyfraddau Stryd Fawr a Manwerthu
- Rhyddhad ar gyfer Prosiectau Ynni Dŵr
- Rhyddhad cyfradd elusennol
- Rhyddhad ardrethi ar gyfer eiddo gwag
- Rhyddhad caledi
- Rhyddhad dewisol

Mae rhai eiddo hefyd wedi'u heithrio rhag ardrethi busnes, fel:

- tir ac adeiladau amaethyddol, gan gynnwys ffermydd pysgod
- adeiladau a ddefnyddir ar gyfer hyfforddi neu les pobl anabl
- adeiladau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer addoliad crefyddol cyhoeddus a neuaddau eglwys

### Polisi trethi

Mae "[Adroddiad ar bolisi trethi Cymru 2018](#)" Llywodraeth Cymru (dyddiedig Hydref 2018) yn amlinellu camau i newid ei chynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach, gan gynnwys i

ddatblygu polisi trethiant lleol fel rhan o'r gwaith i ddiwygio cyllid llywodraeth leol yn ehangach. Mae'r adroddiad yn amlinellu y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried "a oes modd gwneud trethi lleol yn decach".

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi blaenoriaeth Llywodraeth Cymru i:

Gweithredu cynllun rhyddhad ardrethi busnesau bach sydd wedi'i dargedu'n well ym mis Ebrill 2018. Parhau i ddatblygu'r cynllun ar ôl 2018 i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion Cymru

Yn yr adroddiad, mae Llywodraeth Cymru yn manylu ar yr [ymgyngoriad](#) a gynhaliwyd ganddi a oedd â'r nod o wella Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach yn 2017, a chamau gweithredu â blaenoriaeth dilynol, gan gynnwys:

- Rhyddhad uwch i safleoedd gofal plant i gefnogi ein hymrwymiad i gynnig 30 awr o ofal plant yn rhad ac am ddim i rieni oed gweithio sydd â phlant tair a phedair oed;
- Cymorth wedi'i dargedu i brosiectau ynni cymunedol;
- Estyniad i gynllun rhyddhad ardrethi'r stryd fawr ar gyfer 2018–19;
- £1.3m ychwanegol i awdurdodau lleol yn 2018–19 i ddarparu rhyddhad dewisol i fusnesau lleol a thalwyr ardrethi eraill a fyddai'n elwa o gymorth a bennir yn lleol.

Mae'r Adroddiad ar Bolisi Trethi yn amlinellu bod y camau hyn wedi'u hariannu drwy gyfyngu ar nifer yr eiddo sy'n gymwys am Ryddhad Ardrethi Busnesau Bach i ddau i bob busnes ym mhob awdurdod lleol. Dywedodd Llywodraeth Cymru:

Mae'r polisi hwn yn atal busnesau mwy o faint a chadwyni cenedlaethol rhag elwa ar y cynllun rhyddhad ardrethi busnesau bach a gynlluniwyd fel cymorth i fusnesau bach. Amcanir i'r newid hwn ryddhau £7m y flwyddyn sy'n cael ei ail-fuddsoddi i gefnogi busnesau bach.

Hefyd, ar [27 Medi 2018](#) cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n darparu 100% rhyddhad ardrethi i'r holl ddarparwyr gofal plant o fis Ebrill 2019 ymlaen.

Mae'r Adroddiad ar Bolisi Trethi yn nodi:

Wrth i Lywodraeth Cymru werthuso'r newidiadau a wnaed eleni, mae'n parhau i ystyried ac i archwilio newidiadau a gwelliannau i ardrethi annomestig a chynlluniau rhyddhad. Mae'r rhain yn cynnwys rhyddhad â chyfyngiad amser a gwneud mwy i helpu busnesau sy'n cefnogi blaenoriaethau cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol.

Mae'r Adroddiad ar Bolisi Trethi hefyd yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â chamau i fynd i'r afael ag efadu ac osgoi talu ardrethi annomestig.

Yn ei adroddiad '[Diwygio cyllid llywodraeth leol yng Nghymru: diweddariad 2018](#)' (Hydref 2018) mae Llywodraeth Cymru yn rhoi manylion y newidiadau y mae wedi'u gwneud i'r system ardrethi busnes, gan gynnwys newidiadau i'r gweithdrefnau uwchraddio blynyddol i adlewyrchu symudiadau yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI), fel y gwnaed o'r blaen. Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried hyblygrwydd cyllid ar gyfer llywodraeth leol, ac mae'n nodi:

Rydym hefyd wedi dechrau archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio dull rhannu enillion ar gyfer trethi lleol, lle gallai'r awdurdodau lleol gadw rhan o'r refeniw ychwanegol y byddent yn ei godi drwy eu hymdrechion eu hunain. Mae hyn yn golygu edrych ar y potensial ar gyfer rhyw fath o gadw ardrethi annomestig ar sail ranbarthol mewn cysylltiad â'r bargeinion dinesig presennol – ac, o bosibl, â'r bargeinion twf yn y dyfodol – lle byddai camau gweithredu'r awdurdodau lleol ar y cyd yn arwain at dwf net mewn refeniw ardrethi.

## Ailbrisiadau Ardrethi Busnes

Mae'r ailbrisiad ardrethi busnes nesaf yng Nghymru [i ddigwydd yn 2021](#), yn unol â'r ailbrisiad nesaf yn Lloegr. Mae wedi cael ei ddwyn ymlaen flwyddyn, o 2022.

Mae'r ddogfen '[Diwygio cyllid llywodraeth leol yng Nghymru: diweddariad 2018](#) Llywodraeth Cymru yn amlinellu ailbrisió fel:

... adolygiad achlysurol o werthoedd trethadwy pob eiddo annomestig yng Nghymru. Mae'n cael ei gynnal i sicrhau tegwch a manwl gywirdeb y system drwy aiddosbarthu'r atebolrwydd treth ymhlith trethdalwyr i adlewyrchu newidiadau yn y farchnad eiddo ac i gofnodi unrhyw newidiadau sydd wedi'u gwneud i eiddo.

Aiff ymlaen i ddweud:

Ar 11 Gorffennaf 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n cynnal yr ymarfer ailbrisió nesaf ar gyfer ardrethi annomestig flwyddyn ynghynt, 2021 yn lle 2022. Mae'r cyhoeddiad hwn yn golygu y bydd y gwerthoedd trethadwy y seilir biliau ardrethi annomestig arnynt yn adlewyrchu amodau diweddaraf y farchnad ac yn galluogi trethdalwyr i gynllunio ymlaen ar gyfer newidiadau mewn atebolrwydd. Nid codi refeniw ychwanegol yw nod yr ymarfer.

[Asiantaeth y Swyddfa Brisió](#) (VOA) sy'n gyfrifol am gynnal ymarferion ailbrisió. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod Asiantaeth y Swyddfa Brisió yn llunio'r rhestr ardrethi a ddefnyddir gan awdurdodau lleol at ddibenion bilio a chasglu, ac mae'r rhestr newydd i fod yn weithredol ar 1 Ebrill 2021. Aiff y diweddariad ymlaen i nodi bod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd yn mabwysiadu cylch ailbrisió bob tair blynedd yn Lloegr ar ôl 2021, ond mae Llywodraeth Cymru yn awgrymu y byddai'n "gynamserol ymrwymo i'r un cylch tair blynedd".

Mae'r diweddariad yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu edrych yn fanwl ar ffyrdd gwell ac amlach o brisió eiddo annomestig o fewn y fframwaith presennol ar gyfer ardrethi annomestig, os daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad nad yw mathau eraill o dreth yn hyfyw.

Ar [9 Gorffennaf 2019](#), cytunodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru i dderbyn cynnig:

... y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Ardrethi Annomestig (Rhestrau) i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Amlinellodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ddibenion y [Bil Ardrethi Annomestig \(Rhestrau\) 2018-19](#):

The UK Government introduced the Non-Domestic Rating (Lists) Bill on 12 June to provide for a number of technical changes to the non-domestic rates system in both England and Wales. Following my

predecessor's announcement in July last year, provisions in the Bill applying to Wales will bring forward the next non-domestic rates revaluation date from 2022 to 2021 and adjust the deadline for the submission of proposed lists from September to December in the preceding valuation year.

## Dulliau amgen o drethu

Mae'r ddogfen '[Diwygio cyllid llywodraeth leol yng Nghymru: diweddariad 2018](#) gan Lywodraeth Cymru yn amlinellu gwaith ymchwil y mae'n bwriadu ei gynnal drwy gydol 2019, gan gynnwys edrych ar:

... ymarferoldeb treth gwerth tir fel opsiwn posibl i gymryd lle ardrethi annomestig. Byddai hwn yn gam cychwynnol gyda'r nod o asesu treth gwerth tir ymhellach i gymryd lle treth gyngor.

Mae'r '[Adroddiad ar bolisi trethi Cymru 2018](#) Llywodraeth Cymru yn manylu ar fwriad Llywodraeth Cymru i archwilio dull gwahanol o ymdrin â threthi lleol yng Nghymru, gan gynnwys Treth Gwerth Tir, ac a allai'r dulliau hynny ddod â buddion. Yn yr adroddiad, nodir:

Yn 2019, bydd y ffocws ar waith empirig a thechnegol i asesu hyd a lled yr heriau ymarferol hyn. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â darnau gwahanol ond cysylltiedig o ymchwil yn ymwneud â blaengaredd y dreth gyngor ac effaith diwygio lles; ymarfer ailbrizio damcaniaethol; ffyrdd eraill o brizio eiddo domestig ac annomestig ac archwilio dichonoldeb treth ar werth tir.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu dod â chanfyddiadau o'r gwaith technegol hwnnw at ei gilydd yn gynnar yn 2020 ac amlinellu posibiliadau cyn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2021.

## Cefnogaeth arall i fusnesau

Mae'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn nodi yn ei llythyr ynghylch y ddeiseb hon fod gan Lywodraeth Cymru hefyd nifer o fentrau sy'n darparu cefnogaeth ariannol i ganol trefi, gan gynnwys:

- £100 miliwn [Rhaglen targedu Buddsoddiad mewn Adfywio](#) (2018–21)
- £54 miliwn [Rhaglen Adeiladu ar gyfer y Dyfodol](#) (2017–2022)
- £31.5 miliwn [Cynllun Cronfa Benthyciadau Canol Trefi](#) (cychwynnwyd yn 2014–15)
- £262,000 ar gyfer [Ardaloedd Gwella Busnes](#) (2018–19 a 2019–20)

## Datblygiadau yn yr Alban

Mae'r ddeiseb yn cyfeirio at ddulliau gweithredu yn yr Alban o ran ardrethi busnes. Yn 2017 cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban [adroddiad annibynnol ar gyfraddau ardrethi annomestig](#) ("Adroddiad Barclay"). Daeth yr adroddiad hwnnw i'r casgliad:

... some form of property tax is still an appropriate way to fund the local services provided by councils, as the whole of society benefits from the services they provide (such as education, social care and road

maintenance). However, we also acknowledge that a property tax does not adequately cover all aspects of the fast growing digital economy...

Roedd Llywodraeth yr Alban [am fynd i'r afael ar unwaith](#) â nifer o agweddau ar yr adolygiad, gan gynnwys cynnal ailbrisiadau mwy rheolaidd ac mae wedi [ymgyngori](#) ar weithredu agweddau ar yr adolygiad hwnnw a fyddai angen deddfwriaeth sylfaenol. Mae [Bil Ardrethi Annomestig \(Yr Alban\)](#) ar hyn o bryd ar ei hynt drwy Senedd yr Alban. Mae'r nodiadau polisi sy'n cyd-fynd â'r Bil hwnnw yn amlinellu na fydd Llywodraeth yr Alban yn bwrw ymlaen â'r argymhelliad i godi ychwanegiad ardrethi busnes ar fusnesau sydd wedi'u lleoli ar-lein neu y tu allan i drefi yn bennaf.

## Datblygiadau diweddar eraill

- Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgyngoriad rhwng 8 Mawrth 2019 a 30 Mai 2019 ynghylch y [cyfraddau datgyfalafu i Gymru ar gyfer ailbrisio ardrethi annomestig 2021](#).
- Ar 10 Mehefin 2019, [ymatebodd](#) y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd i gwestiwn ysgrifenedig ar gefnogaeth i dafarndai mewn perthynas ag ardrethi annomestig.
- Ar 16 Mehefin 2019, cyflwynodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd [gynnig i'r Cynulliad](#) o ran Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n caniatáu i Lywodraeth y DU ddeddfu i [ostwng yr ardrethi atebolrwydd ar gyfer toiledau cyhoeddus i ddim](#) o 1 Ebrill 2020.
- Amlinellodd Llywodraeth Cymru, ym mis [Ionawr 2019](#), ei bod yn bwriadu ymgyngori ar gael gwared ar y rhyddhad ardrethi elusennol o ysgolion preifat ac ysbytai preifat.
- Ar 13 Awst 2019, [ysgrifennodd grŵp o fanwerthwyr at y Canghellor](#) (Llywodraeth y DU) yn gofyn am ddiwygio'r system ardrethi busnes.

Yn ddiweddar, mae'r Pwyllgor Deisebau wedi ystyried deiseb arall yn ymwneud ag ardrethi busnes:

- P-05-855 Adolygiad o ryddhad ardrethi busnesau bach ([29 Ionawr 2019](#)).

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Ein cyf RE/05313/19

Janet Finch-Saunders AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Tŷ Hywel  
Caerdydd  
CF99 1NA  
[SeneddDeisebau@cynulliad.cymru](mailto:SeneddDeisebau@cynulliad.cymru)

24 Gorffennaf 2019

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr ynghylch ardrethi annomestig a'r diwydiant manwerthu, a anfonwyd ar ran y Pwyllgor Deisebau.

Rwyf yn deall y buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol pwysig y mae busnesau'n eu darparu ledled Cymru. Am y rheswm hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu nifer o gynlluniau i helpu talwyr ardrethi gyda'u biliau ardrethi annomestig. Yn 2019-20 mae Llywodraeth Cymru'n darparu rhyddhad ardrethi o dros £210 miliwn i ystod eang o fusnesau a thalwyr ardrethi eraill. Bydd mwy na thri chwarter o dalwyr ardrethi yng Nghymru'n elwa ar y rhyddhad hwnnw, gyda hanner yn talu dim byd o gwbl.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gefnogi busnesau ac ym mis Rhagfyr 2018 cyhoeddwyd bod swm ychwanegol o £23.6 miliwn yn cael ei fuddsoddi i estyn a gwella ein cynllun rhyddhad ar gyfer y Stryd Fawr am flwyddyn bellach i mewn i 2019-20. Bydd y cynllun ehangach yn mynd yn sylweddol bellach na'r blynyddoedd blaenorol, gan ddarparu cymorth i ryw 15,000 o fanwerthwyr yng Nghymru gyda gwerth ardrethol o hyd at £50,000. Mae'r cyfyngiad ynghylch sicrhau gostyngiad mewn gwerth ardrethol i eiddo yn sgil ailbrizio wedi'i ddileu. O ganlyniad, ar yr amod bod amgylchiadau'n bodloni'r meini prawf, dylai talwyr ardrethi fod yn gymwys am Ryddhad y Stryd Fawr o hyd at £2,500 yn 2019-20. Mae'r cynllun yn seiliedig ar geisiadau. I gael gwybodaeth bellach am sut i wneud cais, dylai talwyr ardrethi gysylltu â'u hawdurdod lleol.

Mae gwybodaeth bellach am y gwahanol fathau o ryddhad sydd ar gael i'w chael ar y wefan ganlynol:

<https://businesswales.gov.wales/business-rates-relief-in-wales>.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 58**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o fentrau hefyd sy'n cynnig cymorth ariannol ar gyfer canol trefi. Mae hyn yn cynnwys ein rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio gwerth £100m, ein rhaglen adfywio Adeiladu ar gyfer y Dyfodol gwerth £54m, ein cynllun Benthyciadau Canol Trefi gwerth £31.5m £262,000 ar gyfer Ardaloedd Gwella Busnes.

Ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n dwyn y gwaith o ailbriso ardrethi annomestig yng Nghymru ymlaen o 2022 to 2021, gan gynnig sicrwydd i dalwyr ardrethi a sicrhau bod yr ailbrisiadau sy'n sail i'r system ardrethi annomestig yn dal yn amserol ac yn gywir. Nid oes cyhoeddiad wedi'i wneud ynghylch amllder ailbrisiadau yng Nghymru wedi hynny, gan ein bod, yn hytrach, yn ymchwilio i ymagweddau amgen at ailbriso a threthi lleol yn ehangach.

Mae'r ddeiseb oddi wrth Ardal Gwella Busnes "Your Pontypridd" yn codi rhai pwyntiau diddorol ynghylch y newid yn natur manwerthu a gwario gan ddefnyddwyr. Bydd yr Ardal yn falch o wybod fy mod yn edrych ar ddewisiadau ar gyfer diwygio trethi lleol yn y tymor hwy gan gynnwys datblygu ein cynlluniau rhyddhad ymhellach i sicrhau eu bod yn cael eu targedu i fodloni anghenion Cymru yn y ffordd orau. Mae'n fwriad gennym arddel dull gweithredu blaengar, teg a thryloyw tuag at drethi lleol, sy'n parhau i ddarparu cyllid ar gyfer gwasanaethau lleol hanfodol. Ar 24 Hydref 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad ar gynnydd y gwaith hwn. Mae ar gael yma:

<https://gov.wales/reforming-local-government-finance-wales-2018-update>

Caiff diweddariad pellach am y gwaith hwn ei gyhoeddi yn nes ymlaen eleni.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AC/AM**

Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd  
Minister for Finance and Trefnydd

## Eitem 2.3

### **P-05-896 Atal Ward 35 yn Ysbyty'r Tywysog Siarl rhag Cau**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Beverly Gillespie, ar ôl casglu cyfanswm o 281 lofnodion.

#### **Geiriad y ddeiseb:**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i atal unig ward dementia Merthyr Tudful rhag cau. Mae Ward 35 yn Ysbyty'r Tywysog Siarl yn darparu seibiant hanfodol i deuluoedd ac anwyliaid preswylwyr lleol sy'n dioddef clefyd Alzheimer a ffurfiau eraill ar ddementia. Heb yr ased hanfodol hwn, mae bygythiad gwirioneddol o niwed y gellir ei atal i'r bobl fwyaf agored i niwed. Erbyn hyn, ni all llawer o bobl ofalu am aelodau'r teulu sydd â'r cyflwr hwn oherwydd bod angen gofal arnynt hwythau neu oherwydd pwysau gwaith ac ymrwymadau gofal plant. Ystyriwch y goblygiadau negyddol ehangach o gau'r ward hon a'r boen y byddai'n ei hachosi i lawer o deuluoedd, y byddai eu ward dementia agosaf filltiroedd i ffwrdd.

#### **Gwybodaeth ychwanegol:**

#### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Merthyr Tudful a Rhymni
- Dwyrain De Cymru



# Atal Ward 35 rhag Cau

Pwyllgor Deisebau | 17 Medi 2019  
Petitions Committee | 17 September 2019

Cyfeirnod: RS19/10339

Rhif y ddeiseb: P-05-896

Teitl y ddeiseb: Atal Ward 35 yn Ysbyty'r Tywysog Siarl rhag Cau

## Testun y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i atal unig ward dementia Merthyr Tudful rhag cau. Mae Ward 35 yn Ysbyty'r Tywysog Siarl yn darparu seibiant hanfodol i deuluoedd ac anwyliaid preswylwyr lleol sy'n dioddef clefyd Alzheimer a ffurfiau eraill ar ddementia. Heb yr ased hanfodol hwn, mae bygythiad gwirioneddol o niwed y gellir ei atal i'r bobl fwyaf agored i niwed. Erbyn hyn, ni all llawer o bobl ofalu am aelodau'r teulu sydd â'r cyflwr hwn oherwydd bod angen gofal arnynt hwythau neu oherwydd pwysau gwaith ac ymrwymadau gofal plant. Ystyriwch y goblygiadau negyddol ehangach o gau'r ward hon a'r boen y byddai'n ei hachosi i lawer o deuluoedd, y byddai eu ward dementia agosaf filltiroedd i ffwrdd.

## Y cefndir

Mewn gohebiaeth i'r Pwyllgor dyddiedig 2 Awst 2019, dywed y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y sefydlwyd Ward 35 yn Ysbyty'r Tywysog Siarl a Ward 7 yn Ysbyty Cwm Cynon tua saith mlynedd yn ôl fel rhan o raglen strategol



Bwrdd Iechyd Cwm Taf i foderneiddio gwasanaethau iechyd meddwl i bobl hŷn. Y bwriad oedd darparu gofal i gleifion oedd angen eu derbyn i'r ysbyty am gyfnod hwy o driniaeth cyn eu rhyddhau.

Mae'r Gweinidog yn nodi bod y Bwrdd Iechyd wedi dweud bod nifer y bobl sydd angen y math hwn o ofal wedi gostwng yn sylweddol ers hynny am amrywiol resymau, gan gynnwys y buddsoddiad a wnaed i gryfhau gwasanaethau cymunedol yn agosach i'r cartref a datblygiadau mewn triniaethau. Ar gyfer trigolion Merthyr Tudful, mae'n debygol y bydd nifer y cleifion sydd angen gofal o'r fath mewn ysbyty yn llai na deg y flwyddyn.

Dywedir bod y Bwrdd Iechyd wedi nodi model mwy holistig o ofal yng Nghwm Cynon, sydd hefyd yn cynnwys gwasanaeth gofal dydd estynedig i gefnogi cleifion allan o'r ysbyty. Mae rhagor o waith yn mynd rhagddo i edrych ar yr opsiwn o gyfleuster tai gofal ychwanegol ac ymestyn gwasanaethau i gleifion.

Mae'r Gweinidog yn cydnabod y pryderon ynghylch y posibilrwydd o drosglwyddo cleifion i Ysbyty Cwm Cynon ar ôl cau Ward 35 yn Ysbyty'r Tywysog Siarl a'r materion ymarferol y gallai hyn eu codi i rai teuluoedd. Gan gydnabod y bydd rhaid i deuluoedd deithio pellter hwy i ymweld â Chwm Cynon, aiff y Gweinidog ymlaen i ddweud bod y Bwrdd Iechyd wedi sefydlu gwasanaeth cludiant i'w helpu, sy'n cael ei ddarparu gan yr elusen Hafal fel rhan o gynlluniau Ward 35. Mae'r Bwrdd Iechyd nawr yn edrych ar gyfleoedd i ymestyn y gwasanaeth hwn i deuluoedd.

Dywedodd [erthygl](#) Wales Online ym mis Chwefror 2019 fod Bwrdd Iechyd Cwm Taf wedi cadarnhau y byddai'r ward yn cau. Mae'r erthygl yn nodi bod rhai teuluoedd wedi honni y gallai'r symudiad achosi 'poendod mawr' i'r cleifion agored i niwed a'u teuluoedd a fyddai'n gorfod dod o hyd i lety arall.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Ein cyf/Our ref VG/07230/19

Janet Finch-Saunders AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Deisebau  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

[Government.Committee.Business@llyw.cymru](mailto:Government.Committee.Business@llyw.cymru)

2 Awst 2019

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Gorffennaf ar ran y Pwyllgor Deisebau ynglŷn â Deiseb P-05-896 ynghylch Ward 35 Ysbyty'r Tywysog Siarl.

Rwy'n nodi ac yn deall y pryderon am y posibilrwydd o drosglwyddo cleifion i Ysbyty Cwm Cynon, a'r materion ymarferol allai godi i rai teuluoedd.

Sefydlwyd Ward 35 yn Ysbyty'r Tywysog Siarl a Ward 7 yn Ysbyty Cwm Cynon tua saith mlynedd yn ôl fel rhan o raglen strategol y Bwrdd Iechyd i foderneiddio gwasanaethau iechyd meddwl i bobl hŷn. Y bwriad oedd darparu gofal i gleifion oedd angen eu derbyn i'r ysbyty am gyfnod hwy o driniaeth cyn eu rhyddhau. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dweud bod nifer y bobl sydd angen y math hwn o ofal hirdymor mewn ysbyty wedi gostwng yn sylweddol ers hynny am amrywiol resymau, gan gynnwys y buddsoddiad a wnaed i gryfhau gwasanaethau cymunedol yn agosach i'r cartref a datblygiadau mewn triniaethau. Ar gyfer trigolion Merthyr Tudful, mae'n debygol y bydd nifer y cleifion sydd angen gofal o'r fath mewn ysbyty yn llai na deg y flwyddyn.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am ddarparu a chynnal gwasanaethau gofal iechyd diogel a chynaliadwy ar gyfer y boblogaeth leol, o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Er mwyn cyflawni hyn, maent wedi nodi model mwy holistig o ofal yng Nghwm Cynon, sydd hefyd yn cynnwys gwasanaeth gofal dydd estynedig i gefnogi cleifion allan o'r ysbyty. Mae rhagor o waith yn mynd rhagddo i edrych ar yr opsiwn o gyfleuster tai gofal ychwanegol ac ymestyn gwasanaethau i gleifion.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gan gydnabod y bydd rhaid i deuluoedd deithio pellter hwy i ymweld â Chwm Cynon, mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu gwasanaeth cludiant i'w helpu, sy'n cael ei ddarparu gan yr elusen Hafal fel rhan o gynlluniau Ward 35. Mae'r Bwrdd Iechyd nawr yn edrych ar gyfleoedd i ymestyn y gwasanaeth hwn i deuluoedd.

Rwyf wedi cael fy sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn llwyr ddeall yr effaith y mae trosglwyddo gofal yn ei chael ar gleifion ac ar aelodau o'r teulu, ac mae wedi ymrwymo i barhau i drafod gyda'r cleifion yn y dyfodol.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Vaughan Gething". The signature is written in a cursive, flowing style.

**Vaughan Gething AC/AM**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services

### **P-05-897 Rhwystrwch Ddatblygwyr rhag gosod rhwydi yn y gwrychoedd a'r coed**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Chris Evans, ar ôl casglu cyfanswm o 1,508 lofnodion.

#### **Geiriad y ddeiseb:**

Gwnewch hi'n drosedd i osod rhwydi yn y gwrychoedd a'r coed i atal adar rhag nythu.

Mae datblygwyr, ac eraill sydd â diddordeb, yn osgoi cyfreithiau sy'n diogelu adar drwy osod rhwydi yn y gwrychoedd a'r coed i atal adar rhag nythu.

Mae hyn yn dadwreiddio gwrychoedd a choed sydd o gymorth i fioamrywiaeth ac sy'n darparu'r unig safleoedd nythu sydd ar ôl i adar y mae eu niferoedd yn dirywio'n gyflym.

Mae gosod rhwydi yn y gwrychoedd a'r coed yn bygwth rhywogaethau o adar sydd ar drai, yn creu perygl o gaethiwo bywyd gwyllt, ac yn creu llawer iawn o wastraff plastig.

Mae'r arfer hefyd yn torri deddfwriaeth Cenedlaethau'r Dyfodol a basiwyd gan y Senedd eisoes.

#### **Gwybodaeth ychwanegol:**

#### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gŵyr
- Gorllewin De Cymru

## Deiseb: P-05-897 Rhwystrwch Ddatblygwyr rhag gosod rhwydi yn y gwrychoedd a'r coed

Y Pwyllgor Deisebau | 17 Medi 2019  
